**Eitem ar yr agenda: 8**

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU |
| **DYDDIAD:** | 20 MEDI 2004 |
| **ADRODDIAD GAN:** | Y TRYSORYDD |
| **PWNC:** | ALLDRO AMCANOL 2004-2005 |

1. Mae'r atodlen sydd ynghlwm yn cynnwys yr alldro amcanol amcangyfrifedig ar gyfer y flwyddyn ariannol 2004-2005 ac yn dangos y bydd tanwariant o £676,016.

2. Roedd cyllideb 2004-05 yn cynnwys darpariaeth i setlo'r Cytundeb Cyflog ac Amodau Gwasanaeth Mehefin 2003. Mae taliad camau olaf y Cytundeb bellach wedi cael eu cymeradwyo ac mae'r alldro amcanol amcangyfrifedig yn cymryd y taliadau yma i ystyriaeth.

3. Y prif faes lle mae tanwariant yw cyflogau, sef £497,807 ar hyn o bryd. Ar gyfer Staff Lifrai cyfrifwyd y tanwariant amcangyfrifedig ar y lefelau gweithgarwch presennol a gallent newid yn sylweddol o fewn y saith mis nesaf oherwydd ffactorau na ellir eu rhagweld, megis y tywydd. Mae'r tanwariant ar staff Llywodraeth Leol yn bod oherwydd yr oedi wrth benodi i swyddi, yn enwedig y rhai sydd yn y Cynllun Integredig Rheoli Risg.

4. Mae'r gwariant ar adeiladau yn dangos tanwariant o £51,455, yn bennaf oherwydd yr oedi wrth gael pencadlys newydd, roedd y gyllideb wreiddiol wedi amcangyfrif rhent am flwyddyn lawn tra mae'r rhagolygon presennol yn dweud na fydd yr adeilad ar gael tan chwarter olaf y flwyddyn ariannol.

5. Mae'r amcangyfrif alldro ar gyfer Cludiant yn dangos y bydd yna orwariant o £39,944, sydd yn bennaf oherwydd i'r premiwm yswiriant ar gyfer cerbydau fod yn uwch nag a ragwelwyd. Dan y pennawd Cyflenwadau a Gwasanaethau mae'r costau ar gyfer Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus £78,952 yn llai na'r ffigwr yn y gyllideb. Fel cyfanswm, mae cost yswiriant yn £36,817 yn llai na'r ffigwr yn y gyllideb.

6. Amcangyfrifir y bydd tanwariant o £39,064 yn y taliadau Prydlesu oherwydd bod nifer yr offer i'w prydlesu yn llai na'r disgwyl.

7. Ar y cyfan, mae'r amcangyfrif alldro ar gyfer incwm £43,980 yn uwch na'r disgwyl oherwydd nifer o ffactorau; incwm llog yn uwch na ragwelwyd oherwydd bod y cyfraddau llog wedi bod yn uwch na'r hyn dybiwyd pan osodwyd y gyllideb; ymestyn secondiad staff y Gwasanaeth Tân sydd yng Ngholeg y Gwasanaeth Tân; ac nid oedd yr incwm ar gyfer cynllunio ar gyfer argyfyngau yn y gyllideb wreiddiol.

**8. ARGYMHELLIAD**

**Mae'r alldro amcangyfrifedig yn seiliedig ar y lefelau gweithgarwch presennol ac fel y dywedir yn yr adroddiad, gallai hyn newid. Felly, argymhellir bod y tanwariant yn cael ei nodi ac yr ystyrir yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod Tân sut i ymdrin â'r tanwariant pan fydd ffigwr alldro mwy diweddar ar gael.**

*KW FINCH*
**Trysorydd** **1 Medi 2004**